Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

# AR GYFER DYFED-POWYS

## Rhestr o Rwymedïau Cymunedol


**Awdur(on): Nicola Harris**

**E-bost: nicola.harris@dyfed-powys.police.uk**

**Ffôn: 01267 617205**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 3
2. Y Trefniadau Presennol ........ 4
3. Camau Arfaethedig ........ 5
4. Canlyniadau'r Arolwg ........ 7
5. Casgliad ac Argymhellion ........ 15

# 1. Cyflwyniad

Deilliodd y syniad o rwymedi cymunedol o ymgynghoriad cyhoeddus yn 2012-2013 a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref. Wedi iddo dderbyn cefnogaeth gan y mwyafrif o ymatebwyr, daeth y syniad o rwymedi cymunedol yn elfen allweddol o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar y dioddefwyr, gyda'r nod o roi mwy o lais i ddioddefwyr troseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o ran sut y dylid ymdrin â'r troseddwyr. Y gobaith hefyd oedd y byddai'r Ddeddf yn cryfhau hyder y cyhoedd mewn datrysiadau y tu allan i'r llys.

Gan ddilyn llwybr cyfiawnder adferol, mae’r datrysiad cymunedol yn cynnig rhestr o sancsiynau priodol y gall yr heddlu a swyddogion ymchwilio awdurdodedig eu defnyddio, weithiau ar y cyd â datrysiadau eraill, mwy ffurfiol, y tu allan i’r llys.

Bydd addasrwydd yr opsiynau yn dibynnu ar natur y drosedd, oedran y troseddwr, ac amgylchiadau'r sefyllfa. Defnyddir rhwymedi cymunedol gan amlaf gyda throseddwyr lefel isel am y tro cyntaf. Mae’r opsiynau hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cyfryngu (er enghraifft, i ddatrys anghydfod rhwng cymdogion)
- Y troseddwr yn llofnodi Contract Ymddygiad Derbyniol – lle mae'n cytuno i beidio ag ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol yn y dyfodol, neu wynebu canlyniadau mwy ffurfiol
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig a ariennir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel rhan o'i ymdrechion i leihau troseddu
- Gwneud iawn â'r gymuned (er enghraifft, trwy wneud gwaith di-dâl yn lleol am hyd at ddeg awr)

Er mwyn bod yn addas ar gyfer rhwymedi cymunedol:

- rhaid i'r heddlu gael tystiolaeth bod y troseddwr wedi ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu wedi cyflawni trosedd;
- rhaid i'r troseddwr gyfaddef i'r ymddygiad neu drosedd a chytuno i gymryd rhan mewn rhwymedi cymunedol; a
- rhaid i'r swyddog fod o'r farn bod y dystiolaeth yn ddigon ar gyfer achos llys neu i osod rhybuddiad, ond ei fod yn ystyried y byddai datrysiad cymunedol yn fwy priodol.

Mae'n ofynnol bod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ymgynghori â'r cyhoedd ar ystod o opsiynau rhwymedi cymunedol. Rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl sicrhau bod y dewisiadau terfynol yn gymesur.

O dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, gosodwyd gofyniad gorfodol ar heddluoedd i drafod datrysiadau y tu allan i’r llys gyda dioddefwyr trosedd.

# 2. Y Trefniadau Presennol

Cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, mewn ymgynghoriad â Heddlu Dyfed-Powys, ymgynghoriad cyhoeddus yn 2013, lle cytunwyd ar restr o rwymedïau cymunedol. Ers 2013, mae’r dewisiadau wedi'u diweddaru o ran y cyfarwyddyd ymarferol a ddarperir i swyddogion heddlu er mwyn symud ymlaen o dan bob un o’r eitemau ar y rhestr. Er enghraifft, o dan yr opsiwn rhaglenni camddefnyddio sylweddau, y canllawiau i swyddogion heddlu bellach yw atgyfeirio drwy'r rhaglen dargyfeirio troseddwyr, yn hytrach nag atgyfeirio'n uniongyrchol at Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, fel y gwnaed yn y gorffennol.

Nid yw'r rhestr o rwymedïau cymunedol yn ddogfen gyhoeddedig ar hyn o bryd. Fe'i defnyddir fel dogfen ganllaw fewnol gan swyddogion yr heddlu i atgyfeirio troseddwyr yn ymarferol o dan bob opsiwn ar y rhestr. Gan fod y diwygiadau yn ymwneud â phrosesau mewnol yn unig, cytunwyd nad oedd angen unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus allanol.

Ym mis Medi 2022, adroddodd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu bod wedi cynnal chwiliad ar wefannau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu am eu dogfennau rhwymedi cymunedol a'u bod wedi canfod y canlynol:

- Nid oedd tystiolaeth o'r rhwymedi cymunedol i'w chael ar 19 o wefannau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- Mae gan 24 ohonynt dudalen we wedi'i neilltuo ar gyfer rhwymedi cymunedol, ond dim ond 11 o'r rhain oedd â dogfen swyddogol yn amlinellu'r llwybrau cyfiawnder adferol yn eu hardal

Darparodd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu enghreifftiau o ddogfennau rhwymedi cymunedol a oedd wedi’u cynhyrchu’n dda a rhestr wirio, fel yr amlinellir isod:

1. A oes gennych dudalen hawdd ei chanfod ar eich gwefan sydd wedi'i neilltuo ar gyfer rhwymedi cymunedol?
2. A oes gennych ddolen i ddogfen swyddogol sy’n amlinellu rhestr o opsiynau rhwymedi posibl y gellir eu defnyddio wrth ymdrin â throseddwr sydd wedi cyfaddef cyfrifoldeb?
3. A yw'r ddogfen hon yn cynrychioli barn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu presennol?
4. A yw'r ddogfen yn esbonio hawliau'r dioddefwyr yn glir?
5. A ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar y sancsiynau posibl y tu allan i'r llys sydd ar gael iddynt yn y ddogfen rhwymedi cymunedol, fel sy'n ofynnol yn statudol?

# 3. Camau Arfaethedig

Nododd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu nad ydym yn bodloni unrhyw un o ofynion y rhestr wirio ar gyfer dogfennau a amlinellir uchod ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, efallai nad yw'r rhestr o rwymedïau cymunedol o reidrwydd yn cynrychioli barn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu presennol, ac mae deng mlynedd wedi mynd heibio bellach ers yr ymgynghoriad cyhoeddus diwethaf. Felly, gwnaed yr argymhellion canlynol:

1. Cynnal ymgynghoriad angenrheidiol ar restr newydd o rwymedïau cymunedol newydd
2. Creu tudalen bwrpasol ar wefan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
3. Cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y dudalen we bwrpasol
4. Creu dogfen swyddogol sy'n amlinellu rhestr ddiwygiedig o opsiynau rhwymedi cymunedol posibl, fel y cytunwyd yn ystod yr ymgynghoriad

Cymeradwywyd yr argymhellion uchod gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar 23 Mawrth 2023.

Wrth baratoi neu adolygu’r ddogfen rhwymedi cymunedol ar gyfer ei ardal, rhaid i gorff plismona lleol wneud y canlynol:

(a) ystyried yr angen i feithrin hyder y cyhoedd yn y broses o bennu datrysiadau y tu allan i'r llys
(b) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch sut y dylai cyrff plismona lleol gyflawni eu swyddogaethau o dan yr adran hon
(c) cynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol ac ystyried yr holl safbwyntiau a fynegwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Mae’r ymgynghoriad angenrheidiol yn golygu gwneud y canlynol:

(a) ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ar gyfer yr ardal
(b) ymgynghori â’r awdurdod lleol ar gyfer unrhyw ran o’r ardal
(c) ymgynghori â pha bynnag gynrychiolwyr cymunedol y mae’r corff plismona lleol yn meddwl y dylid ymgynghori â nhw
(d) cynnal pa bynnag ymgynghoriad cyhoeddus arall sy'n briodol ym marn y corff plismona lleol

Rhaid i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gytuno ar y ddogfen rhwymedi cymunedol ar gyfer ei hardal, ac unrhyw ddogfen ddiwygiedig, gyda Phrif Swyddog yr Heddlu ar gyfer yr ardal.

Unwaith y bydd Prif Swyddog yr Heddlu wedi cytuno ar y ddogfen rhwymedi cymunedol ddiwygiedig, rhaid i Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei chyhoeddi ym mha bynnag ffordd yr ystyrir yn briodol.[1]

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/12/part/6/enacted

Er mwyn symud yr uchod yn ei flaen, ymgysylltodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu â Heddlu Dyfed-Powys yn y lle cyntaf er mwyn ystyried y rhestr o rwymedïau cymunedol sydd ar gael ar hyn o bryd a chytuno ar gwestiynau'r arolwg ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys yr opsiwn y gallai'r cyhoedd awgrymu unrhyw ymyriadau eraill neu gymorth arall yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnwys.

Unwaith y cwblhawyd yr arolwg rhwymedi cymunedol ac y cytunwyd arno gan Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, cynhaliodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ymgynghoriad drwy gynnal y canlynol:

1. Arolwg ar-lein ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r arolwg.
2. Chwe digwyddiad rhwng 29 Mawrth 2023 a 26 Ebrill 2023 a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i rannu gwybodaeth â chynrychiolwyr cymunedol ar negeseuon allweddol, datblygiadau a newidiadau o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Gwahoddwyd cynghorwyr gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i fod yn bresennol yn un o'r chwe digwyddiad a drefnwyd mewn lleoliadau ar draws y pedwar awdurdod lleol. Dosbarthwyd yr arolwg rhwymedi cymunedol ym mhob un o'r digwyddiadau hyn.
3. Negeseuon e-bost at y canlynol:
   - Pob cynghorydd lleol a chymuned ar draws pedair ardal yr awdurdodau lleol
   - Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd
   - Gwirfoddolwyr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
   - Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr
   - Llysgenhadon y Fforwm Ieuenctid

   Roedd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd wedi cynnwys taflen wybodaeth am y rhwymedi cymunedol.

# 4. Canlyniadau'r Arolwg

Derbyniodd yr arolwg rhwymedi cymunedol gyfanswm o 131 o ymatebion. Fodd bynnag, nid atebodd yr holl ymatebwyr bob cwestiwn. Amlinellir canlyniadau'r arolwg isod:

1. **Atgyweirio difrod a achoswyd a/neu dalu am atgyweirio'r difrod**

   Noder: Dim ond pan fydd troseddwr wedi cael rhybuddiad amodol y gellir cymryd y cam hwn.

| | **Ymateb (%)** | **Ymateb (rhif)** |
|---|---|---|
| Cytuno'n llwyr | 72.63% | 69 |
| Cytuno | 25.26% | 24 |
| Anghytuno | 1.05% | 1 |
| Anghytuno'n llwyr | 1.05% | 1 |
| | **Cyfanswm** | **95** |

2. **Cyfryngu**– cefnogi datrysiad anghydfodau

| | **Ymateb (%)** | **Ymateb (rhif)** |
|---|---|---|
| Cytuno'n llwyr | 37.89% | 36 |
| Cytuno | 50.53% | 48 |
| Anghytuno | 7.37% | 7 |
| Anghytuno'n llwyr | 4.21% | 4 |
| | **Cyfanswm** | **95** |

3. **Rhaglenni cymorth camddefnyddio sylweddau / dibyniaeth ar alcohol**

Er enghraifft: Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed yn Nyfed neu Kaleidoscope ym Mhowys.

| | **Ymateb (%)** | **Ymateb (rhif)** |
|---|---|---|
| Cytuno'n llwyr | 64.21% | 61 |
| Cytuno | 32.63% | 31 |
| Anghytuno | 1.05% | 1 |
| Anghytuno'n llwyr | 2.11% | 2 |
| | **Cyfanswm** | **95** |

4. **Llofnodi Contract Ymddygiad Derbyniol**

Cyfle i’r troseddwr wneud newid cadarnhaol i'w ymddygiad trwy gytuno i amodau neu weithredoedd penodol, e.e. cytuno i beidio â mynd i ardal benodol. Dylid nodi na all yr heddlu orfodi hyn. Fodd bynnag, mae'n gam cyntaf i'r troseddwr fyfyrio ar ei ymddygiad a'r newidiadau cadarnhaol y gall eu gweithredu.

| | **Ymateb (%)** | **Ymateb (rhif)** |
|---|---|---|
| Cytuno'n llwyr | 48.42% | 46 |
| Cytuno | 33.68% | 32 |
| Anghytuno | 12.63% | 12 |
| Anghytuno'n llwyr | 5.26% | 5 |
| | **Cyfanswm** | **95** |

5. **Ymddiheuriad llafar neu ysgrifenedig i'r dioddefwr**

| | **Ymateb (%)** | **Ymateb (rhif)** |
|---|---|---|
| Cytuno'n llwyr | 52.63% | 50 |
| Cytuno | 34.74% | 33 |
| Anghytuno | 9.47% | 9 |
| Anghytuno'n llwyr | 3.16% | 3 |
| | **Cyfanswm** | **95** |

6. **Cyrsiau addysgol, dargyfeiriol a/neu reoli tymer**

Pe rhoddid Datrysiad Cymunedol Oedolyn neu rybuddiad amodol i droseddwr, gellir ei gyfeirio at y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr a gall dderbyn asesiad anghenion cyfannol. Byddai hyn yn cynnwys mynediad at gymorth ar gyfer amrywiaeth eang o ymyriadau, gan gynnwys rheoli tymer.

| | **Ymateb (%)** | **Ymateb (rhif)** |
|---|---|---|
| Cytuno'n llwyr | 64.21% | 61 |
| Cytuno | 30.53% | 29 |
| Anghytuno | 4.21% | 4 |
| Anghytuno'n llwyr | 1.05% | 1 |
| | **Cyfanswm** | **95** |

7. **Cwnsela ar gam-drin domestig**

Gall swyddogion atgyfeirio unrhyw ddioddefwr sydd angen cymorth cam-drin domestig at y gwasanaethau presennol. Mae'r asiantaethau cymorth cam-drin domestig yn darparu rhaglenni rhyddid ac adferiad, yn ogystal â chymorth un-i-un neu gymorth lle bo'r angen. Gall swyddogion hefyd atgyfeirio cyflawnwyr at y gwasanaethau hyn.

| | **Ymateb (%)** | **Ymateb (rhif)** |
|---|---|---|
| Cytuno'n llwyr | 67.37% | 64 |
| Cytuno | 26.32% | 25 |
| Anghytuno | 3.16% | 3 |
| Anghytuno'n llwyr | 3.16% | 3 |
| | **Cyfanswm** | **95** |

8. **Arall** – awgrymwch unrhyw ymyriadau eraill neu gymorth arall y credwch y gellid eu cynnwys fel rhan o'r opsiynau rhwymedi cymunedol.

Mae crynodeb o'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r 41 o ymatebion testun rhydd a dderbyniwyd ac ystyriaethau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys i'w weld isod:

| **Math o awgrym / pwnc** | **Ystyriaethau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys** |
|---|---|
| Mwy o gyfranogiad gan rieni | Mae adran 25 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn darparu i rieni ymrwymo i gontractau rhianta pan fydd plentyn yn cael ei atgyfeirio at dîm troseddwyr ifanc. Mae contract rhianta yn ddogfen sy'n cynnwys datganiad gan y rhiant y bydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y contract. Mae hefyd yn cynnwys datganiad gan y tîm troseddwyr ifanc eu bod yn cytuno i ddarparu cymorth i'r rhiant er mwyn ei helpu i gydymffurfio â gofynion y contract. Mae is-adran 4 yn nodi y gallai hyn gynnwys gofyniad i'r rhiant fynychu rhaglen gwnsela neu arweiniad.<br><br>O ganlyniad, mae'r gwasanaeth hwn eisoes yn cael ei reoli gan yr awdurdod lleol perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Cyfiawnder adferol – y troseddwr i gwrdd â'r dioddefwr | Er nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael yn ardal Dyfed-Powys ar hyn o bryd, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrthi'n adolygu hyn. Mae'r adborth o'r ymgynghoriad hwn wedi'i rannu er mwyn cael ei ystyried fel opsiwn ar gyfer y rhestr o rwymedïau cymunedol yn y dyfodol. |
| Gwaith/gwasanaeth cymunedol / gwneud iawn â'r gymuned | Gwneud iawn â'r gymuned yw pan fydd troseddwyr yn gweithio ar brosiectau i wneud iawn â'r gymuned am eu troseddau, er enghraifft drwy wneud y canlynol: cael gwared ar graffiti, clirio tir diffaith a/neu addurno mannau cyhoeddus ac adeiladau – er enghraifft, canolfan gymunedol. Rhaid i'r gwaith fod o fudd i'r gymuned leol, ni ddylai dynnu gwaith cyflogedig oddi ar eraill, ac ni ddylai wneud elw i neb.<br><br>Gellir cyflwyno enwebiadau i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF: **CP_@justice.gov.uk** a dylent gynnwys:<br><br>▪ enw'r prosiect neu'r sefydliad<br>▪ lle byddai'r gwaith yn digwydd<br>▪ disgrifiad byr o'r gwaith sydd angen ei wneud<br>▪ eich manylion cyswllt<br><br>Cyfarfu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu â'r Gwasanaeth Prawf yn ddiweddar ac mae'n gweithio i wella cyfranogiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, trwy roi cyhoeddusrwydd i'r enwebiadau ac o bosibl eu derbyn er mwyn eu cyflwyno ar y cyd ar ran ardal yr heddlu. |
| Enwi er cywilydd / ymddiheuriad cyhoeddus | Ystyrir bod yr awgrym hwn yn mynd yn groes i ethos rhwymedi cymunedol ac y byddai'n atal unigolion rhag ymgysylltu â'r broses. Defnyddir rhwymedi cymunedol gan amlaf gyda throseddwyr lefel isel am y tro cyntaf sy'n cael eu hannog i fyfyrio ar eu gweithredoedd ac i weithio tuag at ddewisiadau gwell. |
| Iawndal / talu am ddifrod a achosir | Ystyriwyd yr adborth hwn fel rhan o 'Atgyweirio difrod a achoswyd a/neu dalu am atgyweirio'r difrod', ynghyd ag ystyriaethau ynghylch unrhyw ymholiadau/pryderon posibl a godwyd ynghylch ansawdd y gwaith atgyweirio a wneir. Argymhellir y dylid ailenwi'r opsiwn rhwymedi cymunedol hwn yn 'Iawndal am y difrod'. |
| Gofyn i'r troseddwr gael ei ail-leoli | Ystyrir bod yr awgrym hwn yn mynd yn groes i ethos rhwymedi cymunedol ac y byddai'n atal unigolion rhag |

| | |
|---|---|
| | ymgysylltu â'r broses. Yn ogystal â hyn, mae'r Contract Ymddygiad Derbyniol yn gyfle i'r troseddwr wneud newid cadarnhaol i'w ymddygiad trwy gytuno i amodau neu gamau gweithredu penodol. Gall hyn gynnwys cytuno i beidio â mynd i ardal benodol. Dylid nodi na all yr heddlu orfodi hyn. Fodd bynnag, mae'n gam cyntaf i'r troseddwr fyfyrio ar ei ymddygiad a'r newidiadau cadarnhaol y gall eu gweithredu. |
| Cwrs rheoli tymer | Mae'r awgrym hwn yn rhan o'r opsiwn cyrsiau addysgol, dargyfeiriol a/neu reoli tymer. Pe bai troseddwr yn derbyn Datrysiad Cymunedol Oedolyn neu rybuddiad amodol, gellir ei atgyfeirio at y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr a gall dderbyn asesiad anghenion cyfannol. Byddai hyn yn cynnwys mynediad at gymorth ar gyfer amrywiaeth eang o ymyriadau, gan gynnwys rheoli tymer. |
| Y cyflawnwr i ymgymryd â hyfforddiant, addysg a/neu gyflogaeth | Mae'r awgrym hwn hefyd yn rhan o'r opsiwn cyrsiau addysgol, dargyfeiriol a/neu reoli tymer. |
| Cymorth i ddioddefwyr yn dilyn y broses llys | Ni fyddai hyn yn berthnasol i'r opsiynau ar y rhestr o rwymedïau cymunedol, sy'n ymwneud â sancsiynau ar gyfer troseddwyr. Gellir cael mynediad i wybodaeth yn ymwneud â gwella'r broses cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr a thystion drwy ddilyn y ddolen hon. Yn ogystal â hyn, mae'r comisiynydd yn ariannu gwasanaethau ar gyfer hyn yn uniongyrchol gan ddarparwyr arbenigol, a gellir cael mynediad iddynt drwy ddilyn y ddolen hon. |
| Pwerau'r heddlu / dedfrydau / deddfau yn ymwneud â meddiant canabis / patrolio mannau problemus i'r heddlu / fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu | Er bod yr awgrymiadau hyn yn ymwneud â deddfwriaeth a phlismona, yn hytrach na'r opsiynau ar y rhestr o rwymedïau cymunedol, rydym wedi ystyried a mynd i'r afael â'r holl adborth, fel yr amlinellir isod:<br><br>Pwerau'r heddlu / dedfrydau / y gyfraith parthed canabis:<br><br>Gellir dod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth – er enghraifft, sut mae'n gweithio, sut y daw i rym a sut y caiff ei diwygio – trwy ddilyn y ddolen hon.<br><br>Patrolio mannau problemus / fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu: |

| | |
|---|---|
| | Mae sawl math o ymddygiad gwrthgymdeithasol, o ymddygiad ymosodol, swnllyd neu sarhaus i aflonyddwch mewn cymdogaethau yn ymwneud â chyffuriau neu anifeiliaid. Os ydych wedi bod yn dyst i ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhowch wybod i Heddlu Dyfed-Powys drwy ddilyn y ddolen hon neu drwy ffonio 101.<br><br>Yn ogystal â'r uchod, mae'r Adolygiad Achos o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Sbardun Cymunedol) yn grymuso'r rhai sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro i ofyn am adolygiad o'r camau y mae asiantaethau partner wedi'u cymryd i ddatrys eu pryderon. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy ddilyn y ddolen hon. |
| Pryderon a fynegwyd ynghylch ansawdd gwasanaeth / ymateb yr heddlu | Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut i wneud cwyn am yr heddlu drwy ddilyn y ddolen hon. |
| Adborth ynghylch rhwymedïau cymunedol a phryd y dylid eu defnyddio | Nododd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyfanswm o wyth ymateb yn ymwneud â'r adborth hwn. Bydd gwybodaeth ynglŷn â sut y caiff opsiynau'r rhestr eu cyflawni ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu defnyddio yn cael ei chynnwys ar y tudalennau rhwymedi cymunedol ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. |
| Adborth ynghylch pryd y byddai cwnsela cam-drin domestig yn briodol | Mae'r opsiwn hwn ar y rhestr yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac yn disgwyl am ymateb gan yr heddlu.<br><br>Yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, holodd yr heddlu a ddylid ystyried unrhyw fath o gam-drin domestig ar gyfer rhwymedi cymunedol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir defnyddio rhybuddiadau amodol ar gyfer troseddau cam-drin domestig a chasineb, gyda chaniatâd penodol Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae hyn oherwydd effaith bosibl a natur ddifrifol troseddu o'r fath (gweler Canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys mewn Achosion o Droseddau Casineb a Cham-drin Domestig).<br><br>Mae rhybuddiad amodol ieuenctid ar gael ar gyfer unrhyw drosedd, ac eithrio trais domestig neu droseddau casineb, pan fydd rhaid idd ŷnt sicrhau sgôr |

| | |
|---|---|
| | o dri neu lai ar y matrics difrifoldeb i fod yn gymwys ar gyfer rhybuddiad amodol.<br><br>Mae Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ymwybodol o'r trafodaethau mae'r heddlu yn eu cael ar hyn o bryd ynghylch dyfodol datrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer cam-drin domestig, gan fod hyn yn cael ei dreialu mewn ardaloedd eraill. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a allai'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr dderbyn atgyfeiriadau pe bai digwyddiadau cam-drin domestig yn dod yn gymwys ar gyfer rhybuddiadau amodol. O ganlyniad, byddai rhaid i Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gael cadarnhad gan yr Heddlu cyn gwneud penderfyniad gwybodus i gadw neu ddileu'r opsiwn hwn o'r rhestr. |

# 5. Casgliad ac Argymhellion

Mae Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi amlinellu crynodeb o’r ymatebion i gwestiynau 1-7 isod:

| **Opsiwn rhwymedi cymunedol** | **% yr ymatebwyr sy'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n llwyr' â'r opsiwn rhwymedi cymunedol** |
|---|---|
| Atgyweirio difrod a achoswyd a/neu dalu am atgyweirio'r difrod | 97.9% |
| Rhaglenni cymorth camddefnyddio sylweddau / dibyniaeth ar alcohol | 96.8% |
| Cyrsiau addysgol, dargyfeiriol a/neu reoli tymer | 94.7% |
| Cwnsela ar gam-drin domestig | 93.7% |
| Cyfryngu | 88.4% |
| Ymddiheuriad llafar neu ysgrifenedig i’r dioddefwr | 87.4% |
| Llofnodi Contract Ymddygiad Derbyniol | 82.1% |

Yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd, mae'n amlwg bod cymunedau ardal Dyfed-Powys yn cefnogi'r holl opsiynau rhwymedi cymunedol a gynigir. O ganlyniad, credir y dylid cynnwys yr holl opsiynau hyn yn y rhestr derfynol o rwymedïau cymunedol ar gyfer Dyfed-Powys, yn amodol ar adborth y Prif Gwnstabl mewn perthynas â datrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer cam-drin domestig.

Ar ôl ystyried yr adborth o’r ymatebion testun rhydd i Gwestiwn 8 yr arolwg, mae Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi mynd i’r afael â phob un o’r categorïau o ymatebion (fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn).

Yn ogystal â hyn, yn seiliedig ar adborth o’r arolwg cyhoeddus, mae Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi nodi’r cyfleoedd canlynol:

- Cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ynghylch pryd y byddai'n briodol i ddefnyddio rhwymedi cymunedol ochr yn ochr â'r rhestr ddiwygiedig.

- Ystyried opsiwn ychwanegol ar gyfer y rhestr o rwymedïau cymunedol, 'Cyflawnwr i gwrdd â'r dioddefwr'. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, bydd yr adborth o'r arolwg cyhoeddus hwn yn rhan o ystyriaethau adolygiad Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu o gyfiawnder adferol, gan gynnwys yr ystyriaeth i hyn gael ei gynnwys fel opsiwn ar gyfer y rhestr o rwymedïau cymunedol yn y dyfodol.

Unwaith y bydd y rhestr o rwymedïau cymunedol wedi derbyn cymeradwyaeth derfynol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn creu tudalen hawdd ei chanfod ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu sydd wedi ei neilltuo ar gyfer rhwymedïau cymunedol. Bydd y dudalen hon yn cynnwys y canlynol:

a. dogfen swyddogol y rhestr o rwymedïau cymunedol sy'n amlinellu'r rhestr o opsiynau unioni posibl y gellir eu defnyddio wrth ymdrin â throseddwr sydd wedi cyfaddef cyfrifoldeb
b. gwybodaeth ynglŷn â sut y caiff opsiynau'r rhestr o rwymedïau cymunedol eu darparu ac o dan ba amgylchiadau y gellir defnyddio rhwymedi cymunedol
c. copi o'r adroddiad hwn, sy'n cynnwys canlyniadau'r arolwg cyhoeddus
d. hyperddolen i'r cofnodion penderfyniadau perthnasol

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu felly'n argymell bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl ac yn amodol ar gadarnhad o briodoldeb cynnwys cwnsela cam-drin domestig, yn cymeradwyo'r rhestr ddiwygiedig o rwymedïau cymunedol fel y nodir yn y tabl uchod.